# Eich canllaw chi i drefnu i Gau Ffordd er mwyn cynnal Parti Stryd ar gyfer y Jiwbilî Platinwm 2 – 5 Mehefin 2022

Nodiadau i'ch helpu i wneud cais

Ffurflen Gais

Amodau ar gyfer Caniatâd ac Indemniad

Enghraifft o Lythyr Ymgynghori

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
Nodiadau ar gyfer trefnu i Gau Ffordd er mwyn cynnal Parti Stryd ar gyfer y Jiwbilî Platinwm 2 – 5 Mehefin 2022

Mae partïon stryd yn rhan draddodiadol o fywyd cymunedol; maen nhw'n ffordd syml i bobl ddod i adnabod eu cymdogion a chwrdd ag aelodau o'u cymunedau.

Mae'r Cyngor am wneud pethau'n haws i bobl gynnal digwyddiadau o'r fath er mwyn dathlu'r Jiwbilî Platinwm rhwng 2 - 5 Mehefin. Felly, mae wedi creu'r canllaw syml hwn felly ar sut i gynnal parti stryd bach yn eich cymuned/stryd leol. Mae'n cynnwys ffurflen gais a ffurflen indemniad er mwyn i chi eu cwblhau a'u dychwelyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, er mwyn i chi allu bwrw ymlaen gyda'r gwaith go iawn o drefnu eich parti stryd.

Mae trefnu partïon stryd bach, preifat yn hawdd iawn ac nid yw fel arfer yn cynnwys gweithgareddau sydd angen trwydded, fel gwerthu alcohol neu ddarparu math penodol o adloniant.

Os ydych am werthu alcohol neu'n bwriadu cynnig adloniant i'r cyhoedd ehangach, neu godi ffi er mwyn casglu arian ar gyfer eich digwyddiad neu gynnal digwyddiad cyhoeddus mwy o faint, bydd angen i chi wneud cais ffurfiol drwy broses wahanol, a hynny drwy'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau. Mae manylion y Grŵp ar gael yma: https://www.caerphilly.gov.uk/Things-To-Do/Events/Planning-an-event?lang=cy-gb

## Mae'r Cyngor am gefnogi'r partïon stryd, ond rhaid i chi sicrhau eich bod chi'n cyflwyno eich cais ar frys.

Os hoffech chi gynnal parti bach er mwyn dathlu'r Jiwbilî Platinwm, defnyddiwch y ffurflen gais er mwyn rhoi gwybod i'r Cyngor o'r digwyddiad (parti stryd) a chyflwyno cais ar gyfer unrhyw ffordd (ffyrdd) sydd angen cau.

**Er mwyn cynnal parti stryd ar neu'n agos at briffordd, rhaid i chi ofyn a sicrhau caniatâd gan y Cyngor er mwyn medru cau'r stryd yn gyfreithlon i unrhyw draffig.**

Y cyngor gorau ar gyfer cynnal parti stryd yw cynllunio a dechrau paratoadau yn gynnar. . Ystyriwch yr hyn yr hoffech chi gyflawni a chyflwyno'r ffurflen gais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili erbyn 3 Mawrth 2022.

Mae rhagor o gyngor a chymorth defnyddiol ar gyfer trefnu digwyddiad llwyddiannus ar gael yma www.streetparty.org.uk

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
## Jiwbilî Platinwm 2-5 Mehefin 2022 – FFURFLEN GAIS

## HYSBYSIAD PARTI STRYD ARFAETHEDIG / CAIS I GAU FFORDD AR GYFER DIGWYDDIAD PEIDIWCH Â CHEISIO CAU'R BRIFFORDD NEU UNRHYW RAN O'R BRIFFORDD HEB YR AWDURDOD PERTHNASOL (GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG)

**MANYLION Y DIGWYDDIAD**

Lleoliad - Enw'r Stryd / Tref / Pentref

Amcangyfrif o'r nifer o bobl sydd yn mynychu (yn fras)

Enw'r ymgeisydd (trefnydd y digwyddiad):

Sefydliad (os yn berthnasol):

Cyfeiriad cyswllt (gan gynnwys y cod post):

Rhif ffôn (yn ystod y dydd):

Rhif ffôn (gyda'r hwyr):

Cyfeiriad e-bost:

A fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ar y ffordd neu'n gorgyffwrdd â'r ffordd? Os **BYDD**, rhaid cwblhau pob un rhan o'r ffurflen hon er mwyn gwneud cais i gau'r ffordd (ffyrdd). Os NA FYDD, disgrifiwch ble y mae'r digwyddiad yn mynd i ddigwydd e.e. Lawnt y Pentre, man agored ac ati, er mwyn i ni roi gwybod i'r adran briodol

**MANYLION AM Y FFORDD SYDD I'W CHAU (RHAID cwblhau pob un rhan yn llawn)**

Enw'r ffordd (ffyrdd) i'w chau:

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Amser y digwyddiad (parti stryd) | |

**(*Sylwch – Bydd cau ffordd yn cael ei ganiatáu rhwng 10.00am ac 8.00pm yn unig rhwng2 – 5 Mehefin 2022)***

Os ydych yn bwriadu cau'r ffordd yn llawn neu ran o'r ffordd (ffyrdd), ble bydd y cau ffordd yn dechrau ac yn gorffen? **Darparwch gopi o gynllun wedi'i farcio'n glir o'r ardal (ar raddfa addas) yn dangos maint yr ardal lle mae'r ffordd ar gau.** Yn ogystal â'r cynllun, nodwch rif y tŷ, ffin y safle neu'r gyffordd agosaf?

| |
|---|
| **O:** |
| **I:** |

Rhowch restr fer o'r eiddo yr effeithir arnyn nhw. Mae hyn yn golygu unrhyw eiddo, preswyl neu fasnachol, sydd wedi'i leoli ar y ffordd(ffyrdd) yr ydych yn dymuno ei chau e.e. Clos Cedrwydden rhifau 1-20 a rhifau 21-98.

| |
|---|
| |

**NODIADAU AR GAU FFYRDD - PWYSIG**

Dim ond ffyrdd pengaead preswyl neu ffyrdd llai na sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer traffig trwodd a fydd yn cael eu hystyried i'w cau o dan y broses hon sydd wedi ei symleiddio.

Dylid cynnal mynediad i gerbydau'r Gwasanaethau Brys, a sicrhau bod preswylwyr/busnesau yn gallu cyrraedd a gadael eu heiddo ar bob adeg cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**ARWYDDION/CONAU/RHWYSTRAU AR GYFER CAU FFYRDD**

Rhaid i holl arwyddion, conau a rhwystrau gydymffurfio â'r Mesurau Diogelwch Traffig ac Arwyddion ar gyfer Gwaith Ffyrdd a Sefyllfaoedd Dros Dro' 2009/20 (Llawlyfr Arwyddion Traffig – Pennod 8) http://www.dft.gov.uk/pgr/roads/tss/tsmanual/ a dim ond gweithwyr, goruchwylwyr, rheolwyr, neu bersonau cymwys eraill sydd wedi'u hyfforddi'n briodol a ddylai fod yn rhan o'r gwaith o asesu, dylunio, gosod, cynnal a thynnu arwyddion rheoli traffig dros dro. Mae enghreifftiau o'r arwyddion cau ffyrdd, conau sydd eu hangen a llun yn dangos yr hyn y gellir ei ystyried yn drefniant lleiafswm diamod ar gyfer cau stryd i'w gweld trosodd.

**ARWYDDION/CONAU/RHWYSTRAU AR GYFER CAU FFYRDD**




Sylwch: Yn anffodus, does dim modd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddarparu'r arwyddion/conau/rhwystrau priodol i chi. Fodd bynnag, mae nifer o gwmnïau Rheoli Traffig wedi'u lleoli yn yr ardal gyfagos a fyddai'n sicr yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn i chi.

**Rhaid cyflwyno cynllun yn dangos manylion y mesurau rheoli traffig arfaethedig gyda'ch cais.**

**FFOTOGRAFF ENGHREIFFTIOL O ARWYDDION/CONAU/RHWYSTRAU AR GYFER CAU FFORDD**

**YMGYNGHORIAD (trigolion sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol o fewn yr ardal sydd i'w chau)**

A yw trigolion wedi eu hymgynghori ynglŷn â'r digwyddiad a/neu'r ffordd sydd i'w chau?
YDYN neu NAC YDYN
(Dilëwch fel bo'n briodol)

Mae'r Cyngor am sicrhau bod y mwyafrif o bobl yn hapus gyda'r digwyddiad arfaethedig (parti stryd). Fodd bynnag, ni fydd pawb yn gallu, neu eisiau, cymryd rhan yn y digwyddiad, felly mae'n syniad da rhoi gwybod i bawb yn union faint o'r gloch y bydd y parti'n dechrau ac yn gorffen (SYLWCH - dim ond rhwng 10.00am ac 8.00pm ar y diwrnod y bydd cyfnod o gau'r ffyrdd yn weithredol.)

Awgrymir dull o ymgynghori drwy anfon llythyr at y trigolion sy'n cae, eu heffeithio'n uniongyrchol yn rhoi gwybod iddyn nhw am fanylion llawn y digwyddiad (parti stryd) fel bod pawb yn derbyn yr holl wybodaeth. Mae llythyr enghreifftiol i'w weld isod:

**LLYTHYR YMGYNGHORI ENGHREIFFTIOL**

**Eich Enw**

Eich Cyfeiriad / Manylion Cyswllt

Annwyl Gymydog,

**Parthed: Parti Stryd ar gyfer y Jiwbilî Platinwm ar ein stryd ar XX Mehefin 2022**

Rwy'n ysgrifennu er mwyn rhoi gwybod i chi **(fy mod i/ein bod ni)** yn bwriadu cynnal parti stryd yn ein stryd er mwyn dathlu'r Jiwbilî Platinwm ar XX Mehefin 2022. **(Byddaf/byddwn)** yn gwneud cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i awdurdodi cau ein ffordd i draffig o 10.00am i 8.00pm ar y diwrnod hwnnw.

Mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod i ni bod rhaid cynnal mynediad i gerddwyr a chaniatáu mynediad i gerbydau'r Gwasanaethau Brys ar bob adeg yn ystod gyfnodau o gau ffyrdd o'r fath Dylid hefyd sicrhau, cyn belled ag sydd yn rhesymol ymarferol, bod trigolion yn medru cael mynediad i ac o'u heiddo a diwallu unrhyw anghenion mynediad eraill sydd ganddynt ar y diwrnod hwnnw. Mae yna drefniadau ar waith er mwyn gosod arwyddion, conau a rhwystrau ar y ffordd (ffyrdd) er mwyn rhoi gwybod i fodurwyr bod y ffordd ar gau ar gyfer ein parti stryd.

Nawr ein bod wedi rhoi gwybod i chi am y trefniadau arfaethedig, rydym yn gobeithio y byddwch yn ymuno gyda ni yn y parti a fydd yn cael ei gynnal **(*nodwch drefniadau'r parti***). Gyda'ch cefnogaeth, rydyn ni'n gobeithio y bydd y parti stryd yn ffordd wych o ddathlu'r Jiwbilî Platinwm.

Fodd bynnag, os oes unrhyw gwestiynau, pryderon neu wrthwynebiad gennych am y trefniadau yma, cysylltwch gyda mi ar (**nodwch y rhif ffôn**).
Cofion cynnes,

Trefnydd y Digwyddiad/Cymydog
**Nodwch yr Enw Yma**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI - AMODAU CANIATÂD A GWEITHDREFNAU**

1. Rhaid cynnal mynediad i gerddwyr i bob eiddo ar y stryd ar bob adeg. Dylid cynnal mynediad cerbydau i breswylwyr cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

2. Rhaid cynnal mynediad i holl gerbydau'r Gwasanaeth Brys yn syth ar bob adeg. Rhaid gosod unrhyw arwyddion, conau a rhwystrau ar draws y stryd mewn modd a fydd yn galluogi eu symud yn syth.

3. Rhaid gosod unrhyw arwyddion, conau neu rwystrau yn unol â'r Llawlyfr Arwyddion Traffig – Pennod 8 – mewn trefniant priodol sydd yn amlwg ar gyfer y modurwyr sydd yn teithio tuag atyn nhw a chael eu gosod gan weithredwyr â chymwysterau addas.

4. Rhaid hongian unrhyw addurniadau neu faneri ar draws stryd mewn modd fydd ddik yn achosi unrhyw rwystr i gerbyd y Gwasanaeth Brys a allai fod angen mynediad mewn argyfwng.

5. Gwaherddir defnyddio goleuadau addurnol wedi'u goleuo (goleuadau Tylwyth Teg neu debyg).

6. Ni chaniateir hongian unrhyw atodiadau ac eithrio baneri a rhubanau oddi ar golofnau goleuadau stryd, arwyddion traffig nac unrhyw ddodrefn stryd arall. Nid oes ganddynt hawl i leihau ansawdd goleuo'r unedau goleuadau stryd a rhaid i unrhyw addurniadau fod yn hawdd eu datod ar gyfer gwasanaethau goleuadau stryd. Ni ddylid codi baneri ac ati ar uchder a allai amharu ar fynediad i gerbydau ac ar lefel nad yw'n achosi rhwystr i gerddwyr.

7. Nid oes hawl defnyddio polion neu gyfarpar er mwyn cefnogi neu ddal unrhyw geblau trydanol uwchben, a hynny er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel. Nid oes hawl gosod unrhyw bolion i mewn i lwybrau troed, lleiniau canol ffordd neu'r ffordd gerbydau.

8. Ni chaniateir unrhyw danau, barbeciw neu debyg o fewn terfynau'r priffyrdd sy'n cynnwys pob; ffordd gerbydau, troedffordd, llain ymyl, llain ganol a chylchfan.

9. Rhaid tynnu unrhyw fyrddau, cadeiriau, rhwystrau ac ati o'r priffyrdd yn syth ar ôl y digwyddiad (parti stryd) a rhaid clirio'r holl sbwriel a malurion o'r ardal.

10. Bydd y trefnydd yn gwerthfawrogi bod ystyriaeth ddyledus i'w rhoi i drigolion, a darpariaethau i'w gwneud ar gyfer diogelwch a chysur yr henoed, pobl ag anableddau/anhawsterau a phlant ifanc iawn. Rhaid cadw lefelau sŵn ac aflonyddwch mor isel â phosibl.

Amodau caniatâd – parhad ar y dudalen nesaf

11. Drwy gwblhau'r ffurflen indemniad sydd wedi ei hamgáu, byddwch yn sicrhau bod y Cyngor yn cael ei indemnio ac yn parhau wedi ei indemnio, a hynny yn erbyn niwed (gan gynnwys marwolaeth) i unrhyw berson neu golled neu ddifrod i unrhyw eiddo sydd yn medru deillio'n uniongyrchol o weithred, diffyg neu esgeulustod ar eich rhan a'n ymwneud â'r digwyddiad, ac yn erbyn unrhyw geisiadau, gofynion, niwed, costau, ffioedd a threuliau sydd yn ymwneud â hyn.

12. CYNGHORIR YN GRYF bod y trefnydd yn cymryd yswiriant atebolrwydd trydydd parti hyd at o leiaf bum miliwn o bunnau i gwmpasu pob posibilrwydd a all ddeillio o gynnal y digwyddiad (parti stryd) a rhaid cyflwyno tystiolaeth o hynny, os gofynnir amdano gan y Cyngor.

13. Bydd y trefnydd yn darparu lluniad o 'faint o'r ffordd' sydd i'w chau a chynllun rheoli traffig arfaethedig gyda'u cais.

14. Bydd y trefnydd yn darparu tystiolaeth bod pawb a fydd yn cael eu heffeithio gan y cyfnod cau yn cytuno eu bod nhw'n cefnogi'r digwyddiad ac yn fodlon ei fod yn mynd rhagddo.

15. Mae'r trefnydd yn gyfrifol am sicrhau bod cwmni rheoli traffig arbenigol yn darparu, yn cynnal (yn ystod y digwyddiad) ac yn cael gwared (ar ôl y digwyddiad) ar yr holl rwystrau cau ffyrdd ac arwyddion dargyfeirio cysylltiedig. Cynghorir trefnydd y digwyddiad yn gryf mai ef/hi sy'n gyfrifol am y costau hyn sy'n aml yn gallu bod yn swm sylweddol.

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI -**
**ADRAN RHEOLI TRAFFIG**

**Awdurdodiad i gau ffordd ar gyfer**
**Digwyddiad Cymunedol (Parti Stryd) ar y Briffordd**

**FFURFLEN INDEMNIAD**

Rwyf yn cytuno â'r amodau caniatâd sydd wedi eu hamlinellu gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer awdurdodi parti stryd ar y briffordd (rwyf wedi derbyn copi) ac felly'n gwneud cais i gau'r ffordd fel sydd wedi ei fanylu yn y cais sydd wedi ei atodi ac fel sydd wedi ei ddangos ar y dyluniad sydd wedi ei atodi. Rwyf hefyd yn cytuno i roi indemniad i'r Cyngor yn erbyn unrhyw gais am niwed personol neu ddifrod sydd yn deillio o'r digwyddiad neu mewn cysylltiad gyda'r Digwyddiad Arbennig fel sydd wedi ei amlinellu isod ac fel sydd wedi ei amlinellu yn yr Amodau Caniatâd a Gweithdrefnau.

| | | |
|---|---|---|
| **Enw'r Digwyddiad Cymunedol:** | Jiwbilî Platinwm (Parti Stryd) | |
| **Lleoliad:** | | |
| **Dyddiad y Digwyddiad:** | Mehefin 2022 | |
| **Amser y Digwyddiad** | O: | I: |
| **Enw'r Trefnydd:** | | |
| **Llofnod:** | | |
| **Dyddiad:** | | |

**SYLWCH** - Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law, heb ffurflen indemniad wedi ei llofnodi, yn cael eu prosesu.

**Beth i'w wneud nesaf?**
Anfonwch y ffurflen gais hon wedi'i chwblhau, gan gynnwys cynllun cau ffordd ac unrhyw lythyrau o wrthwynebiad ynghyd â'r ffurflen indemniad wedi'i llofnodi i: rheolitraffig@caerffili.gov.uk neu, fel arall ei phostio i:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,
Adran Rheoli Traffig,
Tŷ Penallta
Parc Busnes Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG
Yna, bydd y Cyngor yn asesu eich cais ar gyfer cau'r ffordd (ffyrdd) ac yn rhoi gwybod i chi a ydym wedi cymeradwyo eich cais ac/neu a oes rhywbeth arall sydd angen i chi ystyried.

**RHAID CYFLWYNO BOB CAIS I'R CYNGOR, A CHYRRAEDD ERBYN 3 MAI 2022**